

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Cofnodion y Cyfarfod

Dydd Iau 6 Ionawr 2022

Ar-lein drwy Microsoft Teams, 6pm

Yn Bresennol: Aelodau:

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol
Richard Leggett (RL)
Mo Rapley (MR)
David Stacey (DS)
Paul Barrett (PB)
Sean Brown (SB)
Phil Snaith (PS)
Dave Gravelle (DG)

Ysgrifennydd - Caroline Ferguson (CF) – Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad
Cyngor Sir Gaerfyrddin

Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Y Cyhoedd

Y Cynghorydd Hazel Evans (HE) - Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd CSC
Clive Poulton (CP) (Llefarydd ar ran Mynediad i Bobl Anabl)
Catherine Nakielny (CN)
Phil Morgan (PM) (CNC)

Ymddiheuriadau: Aelodau:

Karen Burch (KB) - Dirprwy Gadeirydd
Jillie Gardner (JG)
Andy Pughsley (AP)

Ymgynghorwyr/Sylwedyddion:

Stephen Pilliner – Pennaeth Trafnidiaeth a Phrifyrdd CSC
Neil Thomas – Uwch-reolwr Hamdden Awyr Agored CSC
Andrew Patterson - Swyddog Tir Comin CSC

*Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir Gaerfyrddin

**Mae CNC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru

EITEM	CMAU GWEITHREDU
<p>Eitemau 1 - Croeso ac Ymddiheuriadau</p> <p>CF - Croesawodd yr holl aelodau newydd a phresennol i'r cyfarfod "Fforwm Mynediad Lleol newydd" cyntaf gan roi ymddiheuriadau fel y rhestrwyd uchod.</p>	
<p>Eitem 2 – Ethol Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol NEWYDD</p> <p>CF – Dim ond un person sydd wedi rhoi ei enw ymlaen - Mark Hadley – cyflwynodd Mark ei hun i'r aelodau newydd.</p> <p>DS - Cynigiodd Mark Hadley fel Cadeirydd.</p> <p>RL – Eiliodd.</p> <p>CF - Croesawodd Mark Hadley fel Cadeirydd newydd.</p> <p>Eitem 3 - Ethol Dirprwy Gadeirydd ar gyfer y FFORWM MYNEDIAD LLEOL NEWYDD</p> <p>CF – Dim ond un person sydd wedi cynnig i fod yn Ddirprwy Gadeirydd – Karen Burch.</p> <p>Oherwydd argyfwng, ni allodd Karen fod gyda ni, roedd hi wedi anfon ei chyflwyniad, ac fe'i darllenwyd gan CF.</p> <p>SB - Cynigodd Karen Buch yn Ddirprwy Gadeirydd.</p> <p>RL – Eiliodd.</p> <p>Gwahoddir arsylwyr i gyflwyno eu hunain yn dilyn y broses etholiadol.</p> <p>Philip Morgan (Cyfoeth Naturiol Cymru) - arweinydd tîm rheoli gweithrediadau coedwigaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn Sir Gaerfyrddin.</p> <p>Clive Poulton – Cadeirydd Clymblaid Anabledd Sir Gaerfyrddin a Fforwm 50+ Sir Gaerfyrddin ac mae ganddo ddiddordeb mewn dau brosiect cerdded, diddordeb cyffredinol mewn teithiau cerdded i bobl anabl.</p> <p>Catherine Nakielny - Ffermwr defaid o Dalylychau ger Llandeilo - diddordeb mewn Mynediad Cyhoeddus o safbwynt y Ffermwyr a diddordeb mewn mynediad i dir y mae'r cyhoedd yn berchen arno.</p> <p>Eitem 4 – SYLWADAU RHAGARWEINIOL GAN Y CADEIRYDD NEWYDD</p> <p>MH - Diolchodd i bawb am ei ailethol ac roedd yn edrych ymlaen at dymor cynhyrchiol dros y tair blynedd ac yn gobeithio y bydd unrhyw aelodau newydd yn mwynhau eu hamser fel rhan o'r Fforwm Mynediad Lleol.</p>	

Eitem 5 CAMAU GWEITHREDU YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF (MEDI 9 2021)

Tudalen 3

MH/CF

MH - Cynhyrchwyd nodyn cyngor ynghylch rêfs anghyfreithlon ar dir Cyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn i Gyngor Sir Caerfyrddin, Cyfoeth Naturiol Cymru, Fforwm Mynediad Lleol a'r Heddlu gysylltu â defnyddwyr ynghylch cau'r tir – sut allwn ni reoli'r mater yn y dyfodol?

Bydd MH a CF yn gweithredu fel pwyntiau cyswllt i rannu gwybodaeth.

CF

Tudalen 4

MH - Map digidol o dir comin – Unrhyw newyddion gan Andrew Patterson?

CF – Oes, wedi mynd ar drywydd hyn, ond bydd yn gwneud hynny eto.

MH - Bydd cofnodion Fforwm Mynediad Lleol yn cael eu cynhyrchu'n gynt – a fydd hyn yn berthnasol ar gyfer eleni?

CF – Bydd, y bwriad yw gofyn i aelod o Dîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus wneud y cofnodion.

MH - Gofynnwyd am y wybodaeth ddiweddaraf am Barcio ym Mhen-bre.

CF – Gwiriwyd hyn ac fe'i hysbyswyd gan Reolwr Parc Gwledig Pen-bre na allant ddefnyddio'r maes parcio segur gan ei fod wedi'i ddynodi'n ardal gadwraeth, felly ni allant wneud unrhyw waith yno i'w wneud yn addas i'r diben.

CP – Dylent ddwyn cwyn ynghylch: mynediad ar gyfer parcio, doedd cadwraeth ddim yn esgus derbyniol dros gyfyngu mynediad.

CF – Rhoddodd eglurhad o'r ymholiad safle penodol hwn a oedd yn ardal segur ar hyn o bryd yn Ysgol Gynradd Pen-bre, roedd y Fforwm Mynediad Lleol wedi cwstyfnu defnydd posibl ar gyfer safle parcio ychwanegol.

Tudalen 5

MH - Adroddiad Cilffyrdd Cydweli - anfonwyd nodyn cyngor - a yw hynny'n cael ei ystyried?

CF - Dim penodi swyddog arweiniol newydd hyd yn hyn (prinder staff) – mwy o fanylion i ddilyn.

Tudalen 6

<p>MH - Cafwyd e-bost gan Richard am arolwg rhwydwaith 100%, unrhyw sylwadau pellach?</p> <p>RL - Oedd, rhoddwyd gwybod i ni y byddai'r fersiwn newydd o CAMS (System Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad) yn fyw ym mis Awst/Medi, roedd oedi yn amlwg wedi bod cyn gweithredu, a oes gennym ddyddiad cychwyn newydd?</p> <p>CF – Amlinellodd beth yw CAMS Web, sut y bydd yn gweithio mewn perthynas â Hawliau Tramwy Cyhoeddus, a beth yr ydym yn ei ddisgwyl ganddo pan fydd yn ei le. Mae disgwyl y bydd hyfforddiant ar gael yn fuan i staff ac yna bydd lansiad “bychan” erbyn canol Chwefror lle gofynnir i aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol (a grwpiau dethol eraill) helpu i brofi'r system. Wedi hynny, bydd lansiad llawn ym mis Mawrth i gyd-fynd â chyfarfod Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned lle byddwn yn lansio ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i WEB CAMS ac yn gofyn am fwy o wirfoddolwyr i gynorthwyo.</p> <p>RL – Cododd y cwestiwn ynghylch Adolygu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy</p> <p>MH - Bydd y ddogfen hon yn cael ei hychwanegu at yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.</p> <p>Tudalen 7</p> <p>Adroddiad blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol – wedi'i wirio ar-lein, ai dim ond hyd at 2018 sydd ar-lein?</p> <p>CF - Nid yw adroddiad 2020 wedi'i gyfieithu eto, o safbwynt 2019 - fe wnaeth ymholiadau ynglŷn â pham nad yw ar-lein.</p> <p>MH - HEFYD roedd y cofnodion oedd ar-lein ond yn cynnwys hyd at Ebrill 2021 a allwn fynd ar eu trywydd os gwelwch yn dda?</p> <p>PB – Roedd bylchau sylweddol yn y cofnodion a oedd yn dyddio'n ôl i Ragfyr 2019, doedd dim byd ar gyfer 2020 ac roedd cofnodion Gorffennaf a Medi 2021 i gyd ar goll – angen gwirio hyn.</p> <p>RL – A gawn ni egluro Acronymau os gwelwch yn dda – rwy'n credu bod hyn yn bwysig iawn neu bydd aelodau newydd ar goll yn llwyr. Hefyd, mewn perthynas â WEB CAMS – gan fod Lucy bellach wedi symud i adran arall, gan adael bwlch TG, a fydd gan ei olynydd y sgiliau rheoli TG angenrheidiol ar gyfer WEB CAMS?</p> <p>CF – Yn y tymor byr bydd Lucy yn parhau i weinyddu CAMS. Ni fyddwn yn recriwtio swyddog CAMS gan nad yw'n rhan o swyddogaeth graidd. Os oes angen datblygu WEB CAMS arnom gall Exegisis (darparwr meddalwedd) wneud hynny am ffi. Rydym yn disgwyl cael tîm llawn gyda dau aelod newydd i'r tîm erbyn diwedd Chwefror/Mawrth.</p> <p>EITEM 6 – Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y STRATEGAETH FARCHOGAETH</p> <p>CF - Roedd i fod i fynd i'r pwyllgor ym mis Tachwedd, ond fe'i gohiriwyd tan fis Mawrth. Mae'r dadansoddiad data bron wedi'i gwblhau, gan obeithio trefnu</p>	<p>CF</p> <p>CF</p> <p>CF</p> <p>CF</p>
--	---

cyfarfod rhanddeiliaid gyda'r holl bartïon perthnasol erbyn diwedd Ionawr, gyda chyfarfod is-grŵp Fforwm Mynediad Lleol ym mis Chwefror. Wedi hynny, bydd drafft terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol ym mis Mawrth.

Eitem 7 – Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM BROSIECTAU

CF - Rydym yn symud tuag at waith prosiect mewn ymdrech i reoli'r rhwydwaith yn fwy effeithiol.

AIG (Grant Gwella Mynediad) - mae gwariant wedi ei gwblhau ar wahân i Lwybr Ceffylau yng Nghefneithin lle mae angen cwblhau gwaith cyfreithiol yn gyntaf.

Categori A – Mae'r Rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus i gyd bellach wedi'i gategoreiddio fel blaenoriaeth A i E. Mae'r holl waith cynnal a chadw sy'n weddill ar rwydwaith Categori A wedi'i gwblhau, mae'r gwaith Cyfreithiol ar y gweill, ond nid yw wedi'i gwblhau gan fod amserlenni statudol i'w dilyn. Wrth weithio ar y prosiect hwn mae swyddogion wedi nodi sawl maes nas adroddwyd gyda "lle i wella" ar lwybrau categori A. Gobeithio y cânt eu cwblhau hefyd os bydd cyllid yn caniatáu.

Llwybr Amldeffnydd Cil-y-cwm – mae prosiect Llwybr Amldeffnydd Cil-y-cwm wedi'i ohirio tan y flwyddyn nesaf, gan fod angen cwblhau gwaith yn yr ardal fawnog ar adeg fwy priodol o'r flwyddyn – misoedd yr haf.

CF

Llwybr Amldeffnydd Rhandir-mwyn - yn disodli Cil-y-cwm. Mae'r gwaith ffisegol i gyd wedi'i gostio a'i amserlennu. Mae mater cyfreithiol yng Ngholeg Eildr a bfydd angen mynd gerbron Ynadon, ond nid ydym yn disgwyl i neb wrthwynebu hyn.

Cilffyrdd Cydweli – ar hyn o bryd does dim staff ar gael i fwrw ymlaen â'r gwaith, mae'r arian ar gael ar gyfer y flwyddyn nesaf, sy'n edrych yn debygol o fod yn fwy realistig nag eleni. Mae prosiect "wrth gefn" ar ffurf ardal cae rasio Ffos Las sydd wedi dioddef difrod sylweddol i'r wyneb oherwydd defnydd trwm a gormodedd o ddŵr.

Un prosiect mawr a gynigir ar gyfer y flwyddyn nesaf yw'r hen safle glo brig o'r enw Gilfach Iago. Daethpwyd i gytundeb gyda Celtic Energy, y cynberchennog, i drosglwyddo'r cyfrifoldeb adfer i'r Awdurdod gyda setliad ariannol i gyd-fynd ag ef. Bydd y gwaith yn mynd allan i dendr yn gynnar eleni a chaiff ei gwblhau erbyn y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd yn darparu tri Llwybr Ceffylau ac yn galluogi'r holl lwybrau troed i gysylltu, gan agor ardal sylweddol ar gyfer defnydd hamdden.

PS A fydd angen cwblhau Gorchmynion ar gyfer yr holl Hawliau Tramwy Cyhoeddus newydd yn Gilfach Iago? Hefyd, mae cais wedi dod i law i bob aelod newydd gael y cofnodion blaenorol, er mwyn iddynt ddod yn fwy cyfarwydd â'r prosiectau sydd ar y gweill. Yn ogystal â mynegi pryderon am warchod hawliau i feicwyr ar safle Gilfach Iago.

CF lawn, dim problem, byddaf yn sicrhau bod gan bob aelod gopïau o'r cofnodion blaenorol

Ynghylch: Gilfach Iago, oes, mae'n rhaid newid y ffyrdd i fod yn Llwybrau Ceffylau drwy Orchymyn cyfreithiol, bydd yn cael ymgynghoriad cyhoeddus llawn fel sy'n ofynnol gan statud.

Eitem 8 – DIWYGIO MYNEDIAD

CF – Rhoddodd gefndir byr i aelodau newydd - Ymgynghoriad Diwygio Mynediad Llywodraeth Cymru a chynghori aelodau newydd, gan fod hwn yn waith mawr a chymhleth iawn, i wneud rhywfaint o waith ddarllen ac ymchwil perthnasol yn y maes hwn, gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael ar-lein. Yn enwedig adroddiad diweddaraf y Gweinidogion a gyhoeddwyd ar 29.12.2021, mae'n fanwl iawn.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru bellach wedi cael y dasg o ddarparu gwybodaeth ychwanegol am ddiwygiadau grŵp 1 – mae grwpiau cyswllt wedi'u sefydlu ar gyfer pob cynnig diwygio, mae angen iddynt bellach gwblhau, datblygu opsiynau diwygio a chynhyrchu adroddiad cyngor erbyn mis Ebrill 2022.

Eitem 9 – ADRODDIADAU AR FATERION

RL – Hoffwn ddweud yn gyntaf ei bod yn ddefnyddiol cael yr ystadegau hyn a dylem fod yn ddiolchgar iawn i'r tîm YH, yn enwedig Lucy, am ddatblygu'r fframwaith ar gyfer y wybodaeth hon.

Ar hyn o bryd mae'n edrych fel petai pethau wedi sefydlogi yn y tîm cynnal a chadw dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yna gynnydd mawr yn 2020 ac nid yw'r lefelau wedi gostwng fel ag yr oeddent cyn 2020.

Dylem ofyn beth yw lefel dderbynol o faterion?

Rydym yn ymwybodol y gallai'r bylchau yn y tîm cyfreithiol fod wedi cyfrannu at y materion sy'n weddill a ddyblodd dros y pum mlynedd diwethaf ac mae nifer y materion sy'n hŷn na thair a phum mlynedd wedi cynyddu'n sylweddol.

Yn amlwg mae angen mwy o arian arnom i ymdrin â'r materion hyn, a gall Cyngor Sir Caerfyrddin a Llywodraeth Cymru gynnal sgwrs am hyn.

HE – Diolch Richard, rydym yn gwerthfawrogi'r dadansoddiad a ddarparwyd.

Wrth reswm, mae COVID wedi effeithio ar y gwaith sydd angen ei wneud, gyda mwy o adrodd am faterion oherwydd niferoedd defnyddwyr uwch. Cafwyd adroddiad drwy'r cabinet ar gyfer hierarchaeth rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus a fydd yn pennu sut yr ymdrinnir â'r galw yn y dyfodol. Rydym hefyd yn gweithio ar gael cyllid ac yn gofyn i fwy o gynghorau tref a chymuned gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb yn eu hardaloedd eu hunain.

Gobeithio y bydd unrhyw fesurau newydd yn gallu helpu i leihau nifer y materion sy'n cael eu hadrodd.

PB – Ystadegau cyffredinol – mae'r mater rhwystr cyfreithiol hynaf yn ddyddiedig 2003-04 a'r mater aliniad cyfreithiol hynaf yn ddyddiedig 2005-06. Beth sy'n digwydd gyda'r rhain?

<p>CF – Mae'n rhaid i ni ymdrin â hyn yn ôl blaenoriaeth. Gallai'r materion hyn hynny fod ar lwybrau nad ydynt yn cael eu defnyddio fawr ddim.</p> <p>Dyma lle gall yr hierarchaeth helpu, mae'n rhaid i gategori D ac E aros, nid oes gennym yr adnoddau i ddelio â'r rhain i gyd, mae'n rhaid i ni ystyried lefel y defnydd a lefel y risg. Bydd arolwg cynhwysfawr yn helpu'r blaenoriaethu.</p> <p>PB – Oni fydd yr arolwg 100% yn dod â llawer mwy i'r amlwg?</p> <p>CF – Bydd, ac mae'n rhoi sylfaen i ni symud ymlaen a gwneud y defnydd gorau o adnoddau.</p> <p>MH – A yw'n debygol y gallai rhai o'r rhain fod wedi'u datrys a heb adrodd arnynt?</p> <p>CF – Ydy</p> <p>MH – A fydddech cystal â dosbarthu copi o'r hierarchaeth os gwelwch yn dda?</p> <p>CF – OK.</p>	<p>CF</p>
<p>Eitem 10 – UNRHYW FATER ARALL</p>	<p>PAWB</p>
<p>PS - Codi ymwybyddiaeth o lwybr Amldefnydd Cwm Gwendraeth - sy'n eiddo i Network Rail ar hyn o bryd, sydd am gael gwared arno.</p>	<p>PAWB</p>
<p>MH – Codwyd hyn gan Samara Hicks yn ystod cyflwyniad Teithio Llesol fis Medi diwethaf (2021).</p>	
<p>CF - Byddai'n ddefnyddiol gwahodd rhai cyfraniadau allanol i'r cyfarfod, h.y. cyflwyniadau dyweder ar ran Cymdeithas Genedlaethol y Deiliaid Defaid er enghraifft – Os oes gan unrhyw un syniadau, cyflwynwch nhw.</p>	
<p>CF - Os gall unrhyw un arall feddwl am unrhyw un a all gyfrannu'n allanol, dewch â nhw gyda chi i'r cyfarfod os gwelwch yn dda - byddai'n dda ychwanegu rhai pynciau newydd i'r pair.</p>	
<p>SB - Rydym yn cael ein cynnwys ar e-byst Ceisiadau Cynllunio - beth ddylem ni fod yn chwilio amdano?</p>	
<p>MH - Dechreuon ni wneud hyn oherwydd gofynnwyd i ni ddarparu sylwadau os oedd angen? Os dyma'r achos yn eich ardal chi, gwnewch yn siŵr nad ydyn nhw'n tresmasu ac ati.</p>	<p>PAWB</p>
<p>MH - A all y tîm hawliau tramwy barhau â'r system o'u hanfon at bawb ar y rhestr e-bost?</p>	
<p>CF – Cadarnhaodd y gall hyn ddigwydd.</p>	

MH - A all unrhyw aelod o'r Fforwm Mynediad Lleol sy'n ymateb i unrhyw Ymgynghoriad Cynllunio sicrhau bod Mark Hadley yn cael ei gynnwys os gwelwch yn dda?

Eitem 11 - Dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd 2022

CF - A allwn ni gynnal cyfarfodydd ar ddiwrnod arall er mwyn sicrhau bod mwy yn bresennol? Yn enwedig er mwyn sicrhau mewnbwn mwy amrywiol gan y tîm Hamdden.

MH – Yn niffyg cytundeb ni phenderfynwyd ar hyn, angen gwirio a nodi dyddiadau posib ar e-bost.

MH – Dim ond i gadarnhau, a ydym yn dal i gyfarfod ar-lein hyd y gellir rhagweld?

CF – Mae'n ymddangos felly ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gynlluniau i adolygu'r rheoliadau.

MH - Diolch i bawb am fynychu.